

CONTEST: Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig

Gorffennaf 2011

Crynodeb Gweithredol

1.01. Dyma'r trydydd fersiwn cyhoeddedig o strategaeth wrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig, CONTEST. Mae'r strategaeth newydd hon yn adlewyrchu'r newid yn y bygythiad terfysgol ac yn ymgorffori polisiau newydd y Llywodraeth ar wrthderfysgaeth.

1.02. Nod CONTEST yw lleihau'r risg i'r Deyrnas Unedig a'i buddiannau dramor oddi wrth derfysgaeth, fel bod pobl yn medru byw eu bywydau yn rhydd a gyda hyder.

Y Cyd-destun strategol

1.03. Y llynedd, lladdwyd mwy na 10,000 o bobl gan derfysgwyr ledled y byd. Ond mae dulliau gorfodi'r gyfraith yn rhyngwladol a chydweithredu milwrol yn newid y bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu.

1.04. Mae'r grŵp sy'n arwain Al Qa'ida bellach yn wannach nag ar unrhyw adeg ers 9/11. Nid yw wedi chwarae unrhyw ran yn y newid gwleidyddol yng Ngogledd Affrica a'r Dwyrain Canol. Mae ei ideoleg wedi cael ei thanseilio gan lawer ac mae wedi methu cyflawni unrhyw un o'i amcanion. Gall pwysau rhyngwladol parhaol leihau ei allu ymhellach. Ond mae Al Qa'ida yn parhau yn fygythiad i'n diogelwch ni ein hunain; ac mae grwpiau sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida – yn arbennig yn Yemen a Somalia – wedi dod yn amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi datblygu yn fygythiad sylweddol ynddynt eu hunain.

1.05. Dim ond am gyfran fechan o ymosodiadau terfysgol y mae Al Qa'ida yn gyfrifol. Mae grwpiau eraill, sy'n annibynnol oddi ar Al Qa'ida ond yn cydymdeimlo yn fras a'i nodau, yn parhau i ddod i'r amlwg ac i drefnu ymosodiadau ledled y byd.

1.06. Rydym yn barnu y bydd pedwar ffactor yn parhau i alluogi grwpiau terfysgol dyfu a goroesi: gwrthdaro ac ansefydlogrwydd; agweddau ar dechnoleg fodern; ideoleg a all ehangu; a radicaiddio.

1.07. Mae'r bygythiadau yr ydym ni'n eu hwynebu yma yn adlewyrchu tueddiadau byd-eang. Mae Al Qa'ida, grwpiau sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida, grwpiau terfysgol eraill a therfysgwyr unigol i gyd wedi ceisio gweithredu yn y wlad hon. Mae rhai wedi cynllunio ymosodiadau yma yr ydym ni wedi eu hatal. Mae eraill wedi recriwtio pobl ar gyfer ymosodiadau dramor, taenu propaganda a chodi arian.

1.08. Bu lefel y bygythiad yn y Deyrnas Unedig oddi wrth derfysgaeth ryngwladol yn DDIFRIFOL am lawer o'r cyfnod, gan olygu ein bod yn barnu bod ymosodiad terfysgol yn 'debygol iawn'. Mae lefelau'r bygythiad yn parhau i gael eu gosod yn annibynnol gan JTAC.

1.09. Am lawer o'r cyfnod hwn roedd y bygythiad mwyaf i'r Deyrnas Unedig oddi wrth grwpiau terfysgol yn gweithredu o Bacistan. Mae dinasyddion Prydain (ymhlith cannoedd o Ewropeaid eraill) yn hyfforddi neu'n gweithredu ym Mhacistan ac mae rhai yn bwriadu teithio i Afghanistan. Ond dros y 12 mis diwethaf, mae'r bygythiad i fuddiannau'r Deyrnas Unedig oddi wrth derfysgwyr yn Yemen a Somalia wedi cynyddu'n sylweddol. Mae pobl o'r Deyrnas Unedig hefyd yn teithio i'r gwledydd hyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

1.10. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r bygythiad o Derfysgaeth Cysylltiedig â Gogledd Iwerddon wedi tyfu hefyd: fe fu 40 o ymosodiadau terfysgol yng Ngogledd Iwerddon yn 2010 ac fe fu 16 ymosodiad terfysgol yng Ngogledd Iwerddon hyd at 30 Mehefin 2011.¹ Mae'r bygythiad o Derfysgaeth Cysylltiedig â Gogledd Iwerddon wedi cynyddu.

¹ Data wedi ei ddarparu gan Swyddfa Gogledd Iwerddon am y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2011

1.11. Rhwng Ionawr 2009 a Rhagfyr 2010 arestiwyd dros 600 o bobl am weithgareddau cysylltiedig â therfysgaeth yn y Deyrnas Unedig.² Mae hyn yn uwch nag unrhyw wlad Ewropeaidd arall. Erlynwyd 67 o bobl a dyfarnwyd 58 o bobl yn euog am droseddau yn gysylltiedig â therfysgaeth.

² Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arestiadau terfysgaeth cysylltiedig â Gogledd Iwerddon yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Ein hymateb

1.12. Bydd ein strategaeth gwrthderfysgaeth yn parhau i gael ei threfnu o gwmpas pedair ffrwd gwaith, pob un yn cynnwys nifer o amcanion allweddol

- Erlid: i stopio ymosodiadau terfysgol;
- Atal: i stopio pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth;
- Amddiffyn: i gryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol; a
- Paratoi: i leihau effaith ymosodiad terfysgol.

1.13. Mae'r Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol (SDSR) yn pwysleisio'r angen i ymdrin ag achosion gwaelodol ansefydlogrwydd. Adlewyrchir y dull hwn yn CONTEST. O ran terfysgaeth mae'n rhaid i ni ymdrin nid yn unig â'r bygythiad uniongyrchol o ymosodiad, ond hefyd y ffactorau tymor hir sy'n galluogi grwpiau terfysgol i dyfu a ffynnu. Ni ellir ymdrin â rhai o'r ffactorau hyn mewn strategaeth wrthderfysgaeth ac maent yn flaenoriaethau llawer ehangach i'r Llywodraeth. Mae cydlynu rhwng CONTEST a rhaglenni eraill y Llywodraeth yn hanfodol. Bydd gweithio'n glos gyda gwledydd eraill yn parhau yn flaenoriaeth.

1.14. Bydd CONTEST yn adlewyrchu ein gwerthoedd sylfaenol ac, yn arbennig, ein hymrwymiad nid yn unig i ddiogelu'r bobl yn y wlad hon a'n buddiannau dramor ond i wneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'n hymrwymiad i hawliau dynol a rheolaeth y gyfraith ac yn wir yn ei hybu. Bydd ein strategaeth yn gymesur i'r risgiau yr ydym yn eu hwynebu ac ni fydd yn ymgymryd â gweithgareddau oni bai ei bod yn angenrheidiol i ymdrin â'r risgiau hynny. Bydd yn dryloyw: ble bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn gyson â diogelwch cenedlaethol byddwn yn ceisio sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael er mwyn helpu'r cyhoedd i ddal y Llywodraeth yn atebol am ei pholisïau a'i phenderfyniadau gwariant.

1.15. Rydym yn cydnabod bod llwyddiant wedi ei gyflawni trwy gydweithio rhyngwladol. Bydd hynny yn parhau i fod yn wir yn y dyfodol.

Erlid

1.16. Bwriad Erlid yw atal ymosodiadau terfysgol yn y wlad hon ac yn erbyn ein buddiannau dramor. Mae hyn yn golygu darganfod ac ymchwilio i fygythiadau ar y cyfnod cynharaf posibl, amharu ar weithgareddau terfysgol cyn y gallant beryglu'r cyhoedd, a, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, erlyn y rhai sy'n gyfrifol.

1.17. Yn 2011-2015 rydym am:

- Barhau i asesu ein pwerau gwrthderfysgaeth a sicrhau eu bod yn effeithiol a chymesur;
- Wella ein gallu i erlyn pobl am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth;
- Gynyddu ein gallu i ddarganfod, ymchwilio ac amharu ar fygythiadau terfysgol;
- Sicrhau bod camau cyfreithiol yn y wlad hon yn medru ymdrin yn well â deunyddiau sensitif a chyfrinachol i wasanaethu buddiannau cyfiawnder a diogelwch cenedlaethol; a

- Gweithio gyda gwledydd eraill a chyrrff amlochrog i'n galluogi i ymdrin yn well â'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu yn eu tarddiad.

1.18. Rydym wedi dechrau ar y gwaith hwn trwy adolygu rhai o'r pwerau gwrthderfysgaeth a diogelwch mwyaf dadleuol a ddefnyddiwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol – newid y pwerau stopio a chwilio; lleihau'r cyfnod o amser y gellir dal pobl cyn cael eu cyhuddo o droseddau terfysgol i 14 diwrnod; a chael gwared ar orchmynion rheoli gan roi pecyn yn eu lle yn cynnwys Mesurau Atal ac Ymchwilio Terfysgaeth sy'n cynnig diogelwch ond hefyd yn galluogi i dystiolaeth gael ei chasglu a all arwain at erlyn. Bydd y gwaith hwn yn parhau.

1.19. Rydym yn bryderus ein bod yn parhau i ddynodi llawer mwy o bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau terfysgol yn y wlad hon nag y gallwn eu herlyn a'u collfarnu yn llwyddiannus. Mae gwella'r cyfraddau erlyn eto felly'n parhau yn flaenoriaeth amlwg. Rydym yn parhau i ystyried defnydd posibl ar ryng-gipio fel tystiolaeth. Ond fe fyddwn yn edrych ar ddewisiadau eraill yn awr.

1.20. Credwn fod deialog glos rhwng yr heddlu, asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn sail ar gyfer gwaith gwrthderfysgaeth llwyddiannus. Rydym yn bwriadu cadw'r trefniadau fel y maent i raddau helaeth. Ond mae angen i ni wneud rhai newidiadau i Rwydwaith Gwrthderfysgaeth yr Heddlu i gynyddu ei allu. Ac rydym yn monitro trefniadau newydd a wnaed gan yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y llynedd i wella ymchwiliadau a gydlynwyd i fygythiadau yn y wlad hon o dramor. Rydym yn bryderus bod technoleg mewn rhai meysydd yn erydu ein gallu i gael cudd-wybodaeth am weithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth; rydym yn ymroddedig i ymdrin â hyn mewn deddfwriaeth arfaethedig.

1.21. Credwn, fel mater o egwyddor, y dylai dinasyddion tramor sydd wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau terfysgol yma gael eu halltudio, pan na ellir eu cael yn euog mewn llys neu ar ôl iddynt dreulio eu dedfryd. Ond, o ystyried ein hymrwymiaadau hawliau dynol, ni fyddwn yn alltudio oni bai ein bod yn fodlon na fydd y rhai dan sylw yn cael eu cam-drin ar ôl dychwelyd. Byddwn yn parhau i ofyn am sicrwydd yn y cyswllt hwn gan lywodraethau eraill i hwyluso'r gwaith o alltudio rhagor o rai dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr yn y dyfodol.

1.22. Rhaid i nod llawer o'n gwaith gwrthderfysgaeth dramor, fel y mae yn y wlad hon, fod i ddal ac erlyn pobl sy'n cynllunio gweithrediadau terfysgol. Ond mae gweithrediadau dramor yn cael eu cymhlethu yn sylweddol gan faterion cyfreithiol. Yn anaml iawn y mae rhai gwledydd yn erlyn neu yn collfarnu terfysgwyr. Bu'r driniaeth a roddir i'r rhai sydd yn y ddalfa dramor yn dilyn gweithrediadau gwrthderfysgaeth yn achos pryder sylweddol ers sawl blwyddyn. Mae'r sylw hefyd wedi cael ei ganolbwyntio ar ymwneud y Deyrnas Unedig â'u cadw yn y ddalfa a'r gamdriniaeth honedig arnynt. Rydym eisoes wedi ymrwymo i gynnal ymchwiliad i honiadau bod y Deyrnas Unedig wedi ymwneud â'r gamdriniaeth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r cyfarwyddyd sy'n bodoli yn awr ar y materion hyn i swyddogion cudd-wybodaeth a phersonél y gwasanaethau.

1.23. Mae llwyddiant mewn gwrthderfysgaeth yn dibynnu ar gydweithio rhyngwladol. Byddwn yn cefnogi ein cynghreiriaid allweddol wrth gynyddu eu gallu i ymchwilio i derfysgwyr dramor a'u herlyn.

1.24. Bydd llwyddiant wrth Erlid yn golygu:

- Gartref, fe fyddwn yn medru amharu ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y Deyrnas Unedig ac erlyn neu alltudio rhagor o'r rhai sy'n gyfrifol;
- Dramor, rydym wedi manteisio ar y cyfle sydd gennym yn awr i leihau ymhellach y bygythiad oddi wrth Al Qa'ida, ei gysylltiadau a sefydliadau terfysgol eraill ac rydym wedi amharu ar yr ymosodiadau a gynlluniwyd yn erbyn y wlad hon; a
- Mae ein gwaith gwrthderfysgaeth yn effeithiol, cymesur a chyson gyda'n hymrwymiad i hawliau dynol.

Atal

1.25. Ym Mehefin 2011 cyhoeddodd y Llywodraeth adolygiad o waith diweddar yn gysylltiedig ag Atal a strategaeth newydd ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r adran hon o CONTEST yn nodi ein casgliadau.

1.26. Rydym yn ystyried bod Atal yn rhan allweddol o CONTEST. Nid ydym yn credu ei bod yn bosibl datrys y bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu trwy arestio ac erlyn rhagor o bobl yn unig. Credwn mai dyma farn ein cynghreiriaid allweddol ledled y byd a bod yn rhaid i Atal fod yn ymdrech ryngwladol yn gymaint â rhannau eraill o'n strategaeth wrthderfysgaeth. Ond hefyd rydym am wneud Atal yn fwy effeithiol. Ac yn benodol bwriadwn newid ei gwmpas a'i ffocws yn awr.

1.27. Yn yr un modd â CONTEST yn ei gyfanrwydd bydd Atal yn awr yn ymdrin â radicaleiddio i bob ffurf ar derfysgaeth. Byddwn yn blaenoriaethu yn ôl y risgiau yr ydym yn eu hwynebu ac ar hyn o bryd mae'r risg fwyaf i'n diogelwch yn deillio o derfysgaeth sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida a grwpiau o feddylfryd tebyg. Credwn nad yw'r gwaith Atal hyd yn hyn wedi cydnabod yn ddigon clir y ffordd y mae rhai ideolegau terfysgol yn cael eu hysbrydoliaeth o ac yn defnyddio syniadau eithafol sy'n cael eu hyrwyddo a'u cylchredeg gan gyrff ymddangosiadol ddi-drais, sy'n aml yn gweithredu o fewn y gyfraith. Ni fyddwn yn newid y gyfraith – rydym yn parhau yn ymroddedig i ddiogelu'r rhyddid i leisio barn y mae llawer o'r eithafwyr hynny yn ceisio ei danseilio. Ond mae'n rhaid i atal radicaleiddio olygu herio syniadau eithafol sy'n hybu terfysgaeth a hefyd yn rhan o'r naratif terfysgol. Gall herio olygu sicrhau bod syniadau eithafol yn destun trafodaeth agored. Ond pan fydd pobl yn ceisio dod i mewn i'r wlad hon o dramor i ymwneud â gweithgareddau i gefnogi grwpiau o eithafwyr yn ogystal â therfysgwyr fe fyddwn hefyd yn defnyddio pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gwahardd.

1.28. A ninnau wedi ehangu cwmpas Atal rydym hefyd yn bwriadu culhau ei ffocws. Mae atal yn dibynnu ar strategaeth integreiddio lwyddiannus, sy'n sefydlu ymdeimlad cryfach o dir cyffredin a gwerthoedd a rennir, sy'n galluogi i bob cymuned gymryd rhan a chael ei grymuso ac sydd hefyd yn cynnig symudedd cymdeithasol. Ond ni fydd integreiddio ar ei ben ei hun yn cyflawni amcanion Atal. Ac ni ddylai Atal gymryd

rheolaeth – fel y mae yn y gorffennol – dros gyllid ar gyfer prosiectau integreiddio sydd â diben a gwerth llawer ehangach na diogelwch a gwrthderfysgaeth. Ni fydd y Llywodraeth yn gwneud ei waith integreiddio yn rhan o'i waith diogelwch: ni fyddai hynny yn effeithiol, cymesur nac angenrheidiol.

1.29. Ein hamcanion fydd i:

- Ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad yr ydym yn ei wynebu gan y rhai sy'n ei hyrwyddo;
- Atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chefnogaeth addas; a
- Gweithio gydag amrywiaeth eang o sectorau (gan gynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, y rhynggrwyd ac iechyd) pan fydd risg o radicleiddio y mae angen i ni ymdrin â hi.

1.30. Ar draws ein holl waith Atal fe fyddwn yn cynyddu'r gwaith o fonitro a gwerthuso prosiectau. Rhaid i wrthderfysgaeth yn gyffredinol gynnig gwerth am arian. Rhaid i Atal yn arbennig beidio gwastraffu arian cyhoeddus ar brosiectau sy'n amherthnasol i'w amcanion. Ni fyddwn chwaith yn ariannu na gweithio gyda grwpiau eithafol; byddwn yn gwerthuso hygredd y rhai y byddwn yn eu cefnogi yn ofalus.

1.31. Yn ein holl waith Atal mae'n rhaid i ni fod yn glir am ein diben a'n dulliau. Mae mwyafrif helaeth y bobl yn y wlad hon yn gweld terfysgaeth yn ffaidd ac ni fyddant byth yn ei gefnogi. Ni ddylai gwaith i herio ideoleg geisio newid barn y mwyafrif oherwydd nid oes angen ei newid. Ein diben ni yw cyrraedd y nifer lawer llai o bobl sy'n agored i gael eu radicleiddio. Mae'n rhaid i ni roi grym i gymunedau nid rhoi'r argraff bod angen eu darbwyllo bod terfysgaeth yn anghywir.

1.32. Bydd llwyddiant wrth Atal yn golygu:

- Bod lleihad yn y gefnogaeth i derfysgaeth o bob math yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor y mae eu diogelwch yn effeithio mwyafrif ar ein diogelwch ni;
- Mae her fwy effeithiol i'r eithafwyr hynny y mae eu barn yn cael ei rhannu gan sefydliadau terfysgol ac a ddefnyddir gan derfysgwyr i gyfiawnhau trais; a
- Mae eithafwyr a therfysgwyr sy'n gweithredu ar y rhynggrwyd yn cael eu herio a'u hynysu yn gynyddol.

Amddiffyn

1.33. Diben Amddiffyn yw cryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol yn y Deyrnas Unedig neu yn erbyn ein buddiannau dramor a thrwy hynny leihau'r graddau yr ydym yn agored i niwed. Mae ein blaenoriaethau yn cael eu seilio ar Aseiad Risg Cenedlaethol blynyddol, y byddwn yn cyhoeddi fersiwn ohono, sy'n asesu'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu a'r gwendidau sydd gennym.

1.34. Credwn fod cynnydd sylweddol wedi digwydd gyda'n gwaith cysylltiedig ag Amddiffyn dros y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig wrth sicrhau'r Isadeiledd Critigol Cenedlaethol, wrth asesu a rheoli'r risgiau i fannau lle mae tyrfaoedd yn

ymgynnull ac wrth ddiogelu deunyddiau peryglus y gall terfysgwyr eu defnyddio mewn ymosodiad.

1.35. Ond mae llawer mwy i'w wneud. Byddwn yn neilltuo mwy o adnoddau i ddiogelwch ar y ffiniau, gan wella'r dechnoleg ar gyfer dynodi pwy sy'n dod i mewn ac yn gadael y wlad hon a chydlynu ein hymateb wrth orfodi'r gyfraith. Rydym wedi cyhoeddi ein bod yn creu Awdurdod Ffiniau yn yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol newydd, a fwriadwyd i ymdrin â'r llinellau rheoli lluosog ar draws gwahanol gyrff sy'n gweithredu ar y ffiniau ar hyn o bryd. Rydym eisoes wedi ymateb i fygythiadau diweddar i ddiogelwch hedfan gyda thechnoleg sganio newydd, rhestr wyllo a gweithdrefn dim hedfan, a fwriadwyd i'n galluogi i atal pobl rhag mynd ar awyren sy'n dod i'r Deyrnas Unedig neu yn gadael a all fod yn bwriadu ei dinistrio. Rydym yn gweithio i ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelwch cargo.

1.36. Rydym wedi derbyn adroddiad gan y Crwner yn dilyn y cwest i'r bomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2005. Bydd ein hateb i'r adroddiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi yn fuan; mae argymhellion y Crwner yn cyffwrdd materion sy'n ymwneud ag Erlid, Amddiffyn a Pharatoi.

1.37. O 2011-2015 ein hamcanion Amddiffyn fydd:

- Cryfhau diogelwch ffiniau'r Deyrnas Unedig;
- Lleihau pa mor agored i niwed yw'r rhwydwaith trafniadaeth;
- Cynyddu gwytnwch isadeiledd y Deyrnas Unedig; a
- Gwella diogelwch mewn mannau lle mae tyrfaoedd o bobl.

1.38. Rydym yn cydnabod bod ein gwaith Amddiffyn yn yr holl feysydd hyn yn mynd yn fwy cymhleth. Mewn sawl maes mae ein diogelwch amddiffynnol ni yn dibynnu ar gamau diogelwch effeithiol mewn gwledydd eraill. Rhaid i ddiogelwch hedfan fod yn ymdrech ryngwladol neu ni fydd yn llwyddo; mae diogelwch ffiniau'r Deyrnas Unedig yn dibynnu ar gydweithio rhyngwladol. Yn ogystal, rydym hefyd yn dibynnu ar berthynas glos gyda'r sector preifat, sy'n berchen ar lawer o'r isadeiledd a'r systemau y mae angen eu hamddiffyn. Byddwn yn parhau i fod mor dryloyw ag y gallwn wrth rannu ein dealltwriaeth o'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu a phryd bynnag y bydd hynny'n bosibl byddwn yn cydweithredu i ddatblygu datrysiadau diogelwch.

1.39. Bydd llwyddiant wrth Amddiffyn yn golygu:

- Rydym yn gwybod ble a sut yr ydym yn agored i ymosodiad terfysgol ac rydym wedi lleihau'r gwendidau hynny i lefel dderbyniol a chymesur;
- Rydym yn rhannu ein blaenoriaethau gyda'r sector preifat a'r gymuned ryngwladol ac, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yn gweithredu gyda'n gilydd i ymdrin â nhw; ac
- Mae effaith a chostau ein gwaith ar ddiogelwch amddiffynnol yn gymesur â'r risgiau yr ydym yn eu hwynebu.

Paratoi

1.40. Diben ein gwaith Paratoi yw lleihau effaith ymosodiadau terfysgol pan na ellir stopio'r ymosodiad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddwyn ymosodiad terfysgol i ben ac i gynyddu ein gwytnwch fel ein bod yn medru dod dros ei effeithiau. Bydd ymateb effeithiol ac effeithlon yn arbed bywydau, lleihau niwed a chynorthwyo i ddod dros y digwyddiad.

1.41. Credwn ei bod yn iawn cynyddu gwytnwch mewn modd cydlynol i bob math o fygythiadau a pheryglon. Mae'r dull 'generig' hwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac yn osgoi dyblygu diangen. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gallu generig i wrthsefyll generig yn lleol wedi gwella mewn rhai ardaloedd dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'n rhaid i ni wneud mwy i wella rhai agweddau o'n hymateb, gan gynnwys yn arbennig y cyfathrebu rhwng gwasanaethau brys a gyda'r cyhoedd yn ystod argyfwng sifil. Mae materion ehangach yn aros i'w datrys am yr hyn a elwir yn 'allu i weithio trwy'n gilydd' rhwng y gwasanaethau argyfwng. Rydym hefyd yn bryderus nad oes digon o brofi cyson na chynhwysfawr ar ein holl gynlluniau ymateb argyfwng.

1.42. Gwnaeth adroddiad y Crwner yn dilyn y cwest i'r bomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2005 saith argymhelliad am yr ymateb brys i'r ymosodiadau hynny. Mae'r argymhellion hefyd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau brys a hyfforddi ar gyfer digwyddiadau. Bydd ein hymateb yn ymdrin â'r materion hyn.

1.43. Er bod gallu gwrthsefyll generig yn cynnig sail gadarn i waith i ymateb i ymosodiad terfysgol, mae mathau o ymosodiadau terfysgol sy'n gofyn am ymateb mwy arbenigol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf neilltuwyd adnoddau sylweddol ar gyfer datblygu ymatebion mwy effeithiol i ymosodiad o'r math a ddigwyddodd ym Mumbai rhwng 26-29 Tachwedd 2008. Gwnaed newidiadau sylweddol i adnoddau arfau'r heddlu a'u tactegau, ac i'r ymateb amlasiantaethol fyddai'n ofynnol ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Rydym yn bwriadu parhau'r gwaith hwn.

1.44. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud mwy i ymdrin â'r risgiau terfysgol mwyaf eu heffaith a nodir yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y risg o ymosodiad terfysgol sy'n defnyddio arfau anghonfensiynol, gan gynnwys deunyddiau biolegol, ymbelydrol, cemegol neu hyd yn oed niwclear. Rydym yn pwysleisio bod y tebygolrwydd o weld yr ymosodiadau hyn yn isel. Ond mae eu heffaith mor fawr fel ein bod yn barnu bod rhaid gwneud paratoadau ar eu cyfer. Yn yr un modd â chymaint o feysydd eraill yn y strategaeth hon rhaid i'r paratoadau hynny, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, gael eu cydlynu gyda'n cynghreiriaid dramor. Mae swm sylweddol o waith wedi ei gwblhau yn barod, gan yr heddlu yn arbennig, wrth ddatblygu ymateb yn y meysydd hyn.

1.45. Dros y pedair blynedd nesaf felly fe fyddwn yn:

- Parhau i gynyddu gallu generig i ymateb i amrywiaeth eang o argyfyngau terfysgol a sifil eraill ac i adfer wedi iddynt ddigwydd;
- Gwella ein gallu i fod yn barod ar gyfer y risgiau fydd yn cael yr effaith fwyaf yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol;

- Gwella gallu'r gwasanaethau brys i weithio gyda'i gilydd yn ystod ymosodiad terfysgol; a
- Chryfhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar gyfer ymosodiadau terfysgol.

1.46. Mae profi ac ymarfer yn hanfodol o ran ein gallu i wrthsefyll a bod yn barod. Mae gennym Raglen Ymarfer Gwrthderfysgaeth Genedlaethol. Byddwn yn cynnal hon a bydd Gweinidogion yn cymryd rhan ynddi. Byddwn hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu a threulio'r gwersi o'r ymarferion hyn a byddwn yn disgwyl i'r asiantaethau sy'n cymryd rhan wneud hyn yn gyflym a thrylwyr. Byddwn yn monitro eu cynnydd.

1.47. Bydd llwyddiant wrth Baratoi yn golygu:

- Bod ein cynllunio ar gyfer canlyniadau pob argyfwng sifil yn rhoi'r gallu i ni ymateb i'r mathau mwyaf tebygol o ymosodiadau terfysgol yn y wlad hon ac adfer ar ôl iddynt ddigwydd;
- Bydd gennym allu ychwanegol yn barod i reoli ymosodiadau terfysgol parhaus lle bynnag y bydd gofyn am hynny; a
- Bydd gennym allu ychwanegol yn barod i ymateb i'r risgiau mwyaf eu heffaith.

Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012

1.48. Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 fydd y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn ein hanes, gyda 14,700 o athletwyr o 205 o wledydd mewn mwy na 30 lleoliad. Bydd mwy na 10 miliwn o wylwyr. Mae'r Llywodraeth wedi gwarantu i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol y bydd yn cymryd yr holl gamau ariannol, cynllunio a gweithredol angenrheidiol i sicrhau diogelwch y Gemau.

1.49. Terfysgaeth sy'n creu'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y Gemau. Mae profiad yn dynodi bod digwyddiadau chwaraeon byd-eang yn cynnig targed deniadol ac amlwg i grwpiau terfysgol.

1.50. Rydym wedi cynnal archwiliad ac adolygiad o gynllunio diogelwch y Gemau ac rydym yn fodlon bod trefniadau addas wedi eu gwneud ac yn cael eu gwneud. Mae gan y Deyrnas Unedig record ardderchog o ran trefnu digwyddiadau mawr yn ddiogel. Mae graddfa anferth Llundain 2012 yn creu heriau plismona a diogelwch sylweddol.

1.51. Bydd ein sylw yn canolbwyntio fwy fwy ar sicrhau strategaeth ddiogelwch y Gemau a sefydlu bod gennym y gallu cywir yn ei le, bod ein cynlluniau yn ddigonol i ymdrin â'r heriau, a bod diogelwch yn cael ei gydlynu gyda gweithrediad ehangach y Gemau. Byddwn yn canolbwyntio ar brofi ac ymarfer, gan gydlynu gyda'r Rhaglen Gwrthderfysgaeth Genedlaethol ehangach sydd eisoes yn ei lle.

Gweithredu

1.52. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau atebolrwydd y strategaeth hon, yn ei gweithredu yn effeithiol ac yn monitro ei chynnydd.

1.53. Bydd y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, yn goruchwyllo CONTEST ac yn cael adroddiadau cyson ar ei chynnydd. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn Weinidog sy'n arwain ar waith gwrthderfysgaeth domestig.

1.54. Mae gweithredu yn gofyn am gydweithrediad a chydlynu clos yn y wlad hon. Rydym yn disgwyl i adrannau, asiantaethau a'r heddlu weithio yn glos gyda'i gilydd tuag at set gyffredin o amcanion, gyda thryloywder a didwylledd. Byddant yn cael eu hasesu yn ôl hynny. Byddwn yn ceisio cael deialog â'r sector preifat, cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd ein llwyddiant yn parhau i fod yn ddibynnol ar ansawdd ein hymwneud yn rhyngwladol â'n cynghreiriaid agosaf a chyda sefydliadau amlochrog.

1.55. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn ymdrech ar draws y llywodraeth i gydlynu gwyddoniaeth a thechnoleg i gefnogi CONTEST. Bydd ein Papur Gwyn arfaethedig yn nodi sut yr ydym yn bwriadu defnyddio buddsoddiad mewn technoleg ac offer amddiffyn a diogelwch i ddiogelu'r Deyrnas Unedig rhag bygythiadau i'n buddiannau cenedlaethol, gan gynnwys terfysgaeth.

1.56. Gosododd yr Adolygiad Gwariant 2010 y gyllideb ar gyfer holl adrannau'r Llywodraeth o 2011/12 - 2014/15. Roedd yr adnoddau a rannwyd i adrannau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn yr SDSR. Rydym wedi dyrannu cyllid i gynnal a (fel yr ydym wedi esbonio yn y strategaeth hon) mewn rhai achosion i gryfhau ein gallu gwrthderfysgaeth, gan barhau i greu arbedion effeithlonrwydd.

1.57. Byddwn yn asesu cynnydd CONTEST o'i gymharu â set o ddangosyddion perfformiad, ynghyd â gwerthusiad dyfnach o raglenni penodol. Bydd gwerthuso yn cael ei gefnogi gan ymchwil ehangach a sganio'r gorwel, sy'n hanfodol os ydym am barhau ar y blaen o ran bygythiadau a gwendidau newydd neu rai sy'n newid. Rydym yn ymroddedig i gyhoeddi data pan fydd ei ddisbarthiad diogelwch yn caniatáu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith gwrthderfysgaeth.

Casgliad

1.58. Mae gwaith gwrthderfysgaeth rhyngwladol ers 9/11 wedi dangos cynnydd sylweddol wrth leihau'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu. Mae Al Qa'ida yn awr yn sylweddol wannach nag y bu ers deng mlynedd. Mae cyfleoedd sylweddol i ni a'n cynghreiriaid i wneud rhagor o gynnydd yn y misoedd a blynyddoedd nesaf.

1.59. Ond rydym yn cydnabod yn gyffredinol bod y bygythiad o ran terfysgaeth yr ydym yn ei wynebu yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r asiantaethau a'r heddlu yn parhau i amharu ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yma. Mae'r nifer o bobl a arestiwyd ac a gollfarnwyd wedyn am droseddau terfysgol yn parhau yn uchel.

1.60. Mae'r bygythiad parhaus yn cael ei ddisgrifio trwy'r strategaeth hon i gyd. Rydym yn benderfynol o gynnal y gallu sydd arnom ei angen i gyflawni ein nod – i leihau'r risg i'r Deyrnas Unedig a'n buddiannau dramor oddi wrth derfysgaeth, fel bod pobl yn medru byw eu bywydau yn rhydd a gyda hyder.

1.61. Ond rydym hefyd yn benderfynol o gael strategaeth sydd, nid yn unig yn fwy effeithiol, ond hefyd yn fwy cymesur, sydd yn canolbwyntio yn well ac yn fwy manwl, sy'n defnyddio pwerau yn ddethol, yn ofalus ac mewn ffordd sydd mor gynnil â phosibl. Mae'r themâu hyn a'r iaith hon – hefyd yn rhedeg trwy'r strategaeth hon – yn Erlid, Atal ac Amddiffyn a Pharatoi ac maent wedi eu hadlewyrchu yn ei hegwyddorion sylfaenol.